



## Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru: adeiladu llwyddiant



Plaid Cymru | Party of Wales

# Plaid Cymru: Cynigion am Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru

## Cynnwys

	<b>Tudalen(nau)</b>
<b>Crynodeb</b>	<b>1-3</b>
<b>1 Cyflwyniad</b>	<b>3</b>
<b>2 Seilwaith a datblygu</b>	<b>4-5</b>
<b>3 Seilwaith a Chymru</b>	<b>5-8</b>
<b>4 Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru</b>	<b>8-16</b>
4.1 <i>Llywodraethiant ac atebolrwydd</i>	9-11
4.3 <i>Cyllido</i>	11-14
4.2 <i>Blaenoriaethu a chyflwyno</i>	14-16
<b>5 Casgliad</b>	<b>17</b>

## Crynodeb

- Dywedodd maniffesto Plaid Cymru (PC) ar gyfer etholiadau 2016 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru: *'y byddwn yn sefydlu corff newydd, Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (CSCC), corfforaeth gyhoeddus annibynnol fydd yn gyfrifol am gynllunio, cyllido a chyflwyno'r dyheadau a osodir allan yn y Cynllun Buddsoddi Seilwaith Cenedlaethol.'*
- Sicrhodd Plaid Cymru ymrwymiad i sefydlu CSCC yn eu cytundeb gyda Llywodraeth Cymru, y Compact i Symud Cymru Ymlaen. Caiff y CSCC ei gyflwyno fel rhan o *Raglen Llwodraethu: Mynd â Chymru Ymlaen 2016-2021* Llywodraeth Cymru (LIC).<sup>1</sup>
- Pleidleisiodd y Cynulliad Cenedlaethol o blaid cynnig gan Plaid Cymru ar 14 Medi, 2016 oedd yn galw ar LIC i *'sefydlu comisiwn seilwaith cenedlaethol Cymru i gynllunio, cyllido a chyflwyno seilwaith trafndiaeth, telegyfathrebu, ynni a gwyrdd ein cenedl.'*<sup>2</sup>
- Mae seilwaith yn elfen hanfodol er mwyn llwyddo yn economaidd a chymdeithasol. Bu buddsoddi mewn seilwaith yn y DG yn aml wedi ei or-ganoli yn Llundain a'r cyffiniau. Er bod prosiectau wedi eu gwneud yng Nghymru, gan gynnwys rhai dan nawdd Rhaglen Buddsoddi yn Seilwaith Cymru LIC, mae modd gwneud mwy i helpu i wireddu'r potensial economaidd a chymdeithasol sy'n bod ledled Cymru.

<sup>1</sup> WG (2016) *Programme for Government, Taking Wales Forward 2016-2021*.

<http://gov.wales/docs/strategies/160920-taking-wales-forward-en.pdf> p. 12

<sup>2</sup> PC motion NDM6085, *Votes Summary* (14/09/2016)

<http://abms/documents/b11650/Votes%20Summary%20Wednesday%2014-Sep-2016%2013.30%20Plenary.pdf?T=9> p. 5

- Mae'r canlynol wedi rhwystro buddsoddi mewn seilwaith yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf: agenda llymder Llywodraeth y DG sydd yn effeithio ar lefel y buddsoddiad cyfalaf oedd ar gael i LIC; lefelau buddsoddi isel dan y Fenter Cyllido Preifat (gyda buddsoddiadau o'r fath mewn mannau eraill yn aml yn rhoi gwerth gwael am arian) a LIC yn methu benthyca i gefnogi datblygiadau seilwaith mawr.
- Fe all amgylchiadau presennol hwyluso mwy o ganobwyntio ar seilwaith am y rhesymau canlynol: gall ansicrwydd yn dilyn refferendwm yr UE arwain at newid yn safbwynt gyllidol Llywodraeth y DG; mae cyfraddau llog cysylltiedig â benthyca'r llywodraeth ar lefelau hanesyddol o isel; a gall agwedd Heb Ddosbarthu Elw gynnig dewis arall mwy deniadol na dulliau eraill o gaffael.
- Mae pum egwyddor craidd i gynigion PC ar gyfer y CSCC: atebolrwydd; annibyniaeth; cyflwyno, gonestrwydd a gwerth am arian.
- Dylai'r CSCC: (1) adnabod, costio a blaenoriaethu rhaglen o brosiectau a fyddai, gyda'i gilydd, yn cyflawni strategaeth seilwaith LIC, yn amodol ar derfynau cyllido – gallai prosiectau gynnwys seilwaith economaidd a chymdeithasol; (2) trefnu cyllido a rheoli cyflwyno rhaglen gaffael ar raddfa fawr a (3) cynghori LIC ar flaenoriaethau seilwaith a materion eraill.
- Byddai'r CSCC yn wynebu heriau, gan gynnwys: blaenoriaethu prosiectau seilwaith; datblygu'r gallu mewnol i drefnu cyllido a chyflwyno seilwaith ac ymdrin â'r diffyg cymharol o brosiectau sy'n barod i gychwyn. Rhaid dysgu gwersi o raglenni ledled y DG a thu hwnt wrth ddatblygu dulliau gweithio'r CSCC.
- Dylai'r CSCC fod yn gorfforaeth gyhoeddus, wedi'i sefydlu ar sail nid-am-elw-dosbarthiadwy. Byddai'r elw fyddai'n cael ei gadw yn cael ei ddefnyddio i wella mantolen y gorfforaeth ac i fuddsoddi mewn prosiectau seilwaith y sector cyhoeddus yng Nghymru. LIC fyddai biau'r CSCC, ond byddai'n gweithredu o hyd braich. Dylai Deddf y Cynulliad osod allan ei strwythur, dyletswyddau a phwerau.
- Bwrdd o gyfarwyddwyr, atebol i LIC, fyddai'n rheoli'r comisiwn. Dylai cyfarwyddwyr fod â phrofiad ar lefel uchel mewn meysydd perthnasol i waith y CSCC. Dylai staff y CSCC fod ar raddfa a meddu ar broffil sgiliau fyddai'n sicrhau cyflwyno rhaglen uchelgeisiol.
- Dylai'r CSCC anelu at ddefnyddio agwedd Heb Ddosbarthu Elw. Er bod strwythurau trafodion cysylltiedig a'r agwedd hon yn dal yn destun adolygiad, mae datblygiadau diweddar yn awgrymu y gallant ddal i fod yn ddewis hyfyw. Gall prosiectau seilwaith wedi'u cefnogi yn gyhoeddus gynnig proffil risg deniadol i fuddsoddwyr o'r sector preifat. Mae PC yn cynnig codi rhyw £7.5 biliwn dros ddeng mlynedd i gefnogi rhaglen fuddsoddi CSCC. Byddai cost gwasanaethu'r ddyled ar ei uchaf yn 2026 pryd y gallai fod yn bedwar y cant o gyllideb LIC.

- Byddai agweddau at gyflawni yn cael eu teilwra, ond gellid cyflwyno ysgol fel a ganlyn: (1) mae LIC yn penderfynu rhoi blaenoriaeth i brosiectau codi ysgolion; (2) mae Awdurdod Addysg Lleol (AALI) yn mynd at y CSCC i godi ysgol; (3) mae'r comisiwn yn asesu'r prosiect i weld a ddylid bwrw ymlaen ai peidio; (4) mae prosiect yn cael ei greu gyda'r CSCC yn creu strwythurau'r prosiect ac yn codi cyllid; (5) mae'r comisiwn yn tendro'r gwaith adeiladu i'r sector preifat, cyn cymryd perchenogaeth o'r ysgol orffenedig; (6) mae'r AALI yn mynd i mewn i brydles tymor hir, gan gynnwys bod yn gyfrifol am y gwaith cynnal ac (7) mae taliadau pryddles yn gwasanaethu'r ddyled sy'n gysylltiedig â'r ysgol. Unwaith i'r ddyled gael ei had-dalu, gallai perchenogaeth gael ei drosglwyddo i'r AALI.
- Er na fyddai rheidrydd ar gyrrff y sector cyhoeddus i ddefnyddio'r CSCC, fe fyddai'n ddewis yn lle mathau eraill o fodolau caffael cyhoeddus. Dros amser, dylai rhaglen y CSCC arwain at fwy o safoni rhwng contractau a gweithdrefnau caffael, a byddai hyn yn lleihau costau.
- Gallai'r CSCC greu newid sylweddol yn swm y buddsoddi mewn seilwaith ar hyd a lled Cymru yn ogystal â datblygu agwedd fwy strategol ac integredig. Mae'n rhoi cyfle i LIC greu gwelliannau economaidd a chymdeithasol parhaol, er lles pobl Cymru yn y tymor hir.

## 1 Cyflwyniad

Yr oedd manifestio Plaid Cymru (PC) ar gyfer etholiadau 2016 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC) yn dweud:

Byddwn yn sefydlu corff newydd, Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru, (CSCC), corfforaeth cyhoeddus annibynnol fydd yn gyfrifol am gynllunio, cyllido a chyflwyno'r dyheadau a osodir allan yn y Cynllun Buddsoddi Seilwaith Cenedlaethol.

Bydd CSCC yn ceisio trefnu cyllido'r prosiectau hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys o Fanc Buddsoddi Ewrop a sefydliadau Ewropeaidd eraill, ffynonellau o'r DG megis y Banc Buddsoddi Gwyrdd ac Infrastructure UK, gweithio gydag awdurdodau lleol, cronfeydd pensiwn a buddsoddwyr sefydliadol eraill, a chan ddefnyddio trefniadau pryddlesu tymor hir i godi arian yn annibynnol ar fantolen Llywodraeth y DG, fel y gallai fenthycu mwy o arian ar gyfraddau llog hanesyddol isel er mwyn buddsoddi mewn prosiectau seilwaith hanfodol Cymru, a chreu swyddi yn economi Cymru.<sup>3</sup>

---

<sup>3</sup> *Manifestio PC (2016) Y Newid Mae Cymru ei Angen.*

[https://d3n8a8pro7vhmx.cloudfront.net/plaid2016/pages/328/attachments/original/1459864681/2016\\_Plaid\\_Cymru\\_Manifesto.pdf?1459864681](https://d3n8a8pro7vhmx.cloudfront.net/plaid2016/pages/328/attachments/original/1459864681/2016_Plaid_Cymru_Manifesto.pdf?1459864681), t. 73.

Gallwn gynyddu'r rhaglen fuddsoddi cyfalaf yn sylweddol trwy ddefnyddio'r model nid-am-elw-dosbarthiadwy mewn dull mwy uchelgeisiol a strategol, wedi'i gyd-gordio gan y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol newydd.<sup>4</sup>

Mae ein cynigion yn golygu newid sylweddol yn swm y buddsoddi mewn seilwaith ar hyd a lled Cymru yn ogystal â datblygu agwedd fwy strategol ac integredig. Credwn y byddai rhaglen fuddsoddi o'r fath wedi ei dewis yn dda, gydag adnoddau a rheolaeth dda yn cael amrywiaeth o effeithiau economaidd a chymdeithasol.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu barn PC am sut y gallai CSCC weithio. Mae'n trafod yn fras rôl seilwaith mewn datblygu economaidd a chymdeithasol (adran 2); sylwadau am yr angen am fuddsoddi mewn seilwaith yng Nghymru (adran 3); amlinellu'r CSCC arfaethedig (adran 4) ar draws ei fecanweithiau llywodraethiant (adran 4.1), ei fodel cyllido (adran 4.2) a'i agwedd at flaenoriaethu a chyflawni (adran 4.3). Adran 5 yw'r casgliad.

## **2 Seilwaith a datblygu**

Seilwaith yw ffurfiau ffisegol a ddefnyddir fel cyfraniadau i gynhyrchu nwyddau a gwasanaethau ar draws yr economi. Mae seilwaith economaidd yn cynnwys y rhai cysylltiedig â thrafnidiaeth, telegyfathrebu, dŵr, cynhyrchu a dosbarthu ynni yn ogystal â gwaredu a phrosesu gwastraff. Mae seilwaith cymdeithasol yn cwmpasu addysg, iechyd, tai a chyfleusterau cyhoeddus eraill.

Mae seilwaith yn hanfodol ar gyfer llwyddiant economaidd a chymdeithasol o gofio ei effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar gynhyrchedd, gwaith a thwf. Mae astudiaethau academaidd a llywodraethol yn amlygu effaith gadarnhaol llawer o fuddsoddiad seilwaith ar dwf economaidd, er ei bod yn anodd mesur yr union berthynas ac y mae'n rhaid dewis seilwaith yn ofalus os ydym am gael effeithiau arwyddocaol. Er enghraifft, yn 2008 rhoes Banc y Byd grynoded o'r ymchwiliadau a ddyfynnwyd amlaf o effeithiau prosiectau seilwaith ar gynnyrch economaidd. Cyfunwyd yr astudiaethau oedd yn dadansoddi prosiectau mewn gwledydd datblygedig i gynhyrchu amcangyfrifon fod 69.6 y cant o brosiectau o'r fath wedi cael effaith gadarnhaol ac arwyddocaol, 21.7 y cant wedi cael effeithiau nad oedd yn arwyddocaol, a bod 8.7 y cant wedi cael effeithiau negyddol ac arwyddocaol.<sup>5</sup> Yn ogystal ag effeithiau ar dwf economaidd cyffredinol a thwf, mae prosiectau seilwaith hefyd hefyd yn cael effeithiau unionsyth ar waith ac effeithiau economaidd yn ystod cyfnod eu hadeiladu, er bod y graddau y mae'r rhain yn cael eu cadw mewn ardal benodol yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys polisi caffael. Yn olaf, gall seilwaith hefyd gael amrywiaeth o effeithiau cymdeithasol cadarnhaol, gyda phrosiectau llwyddiannus yn cyfrannu at greu a chynnal rhwydweithiau cymdeithasol lleol a phrofiadau cymunedol sy'n cael eu rhannu.

---

<sup>4</sup> PC (2016) *Maniffesto*, t. 49.

<sup>5</sup> Straub, S. (2008) *Infrastructure and Development: A Critical Appraisal of the Macro Level Literature*. Policy Research Working Paper; No. 4590. Washington, DC: World Bank, t. 16.

Ar yr un pryd, gall y cyfraddau llog isel cyfredol sy'n gymwys ar hyn o bryd i fenthycu llywodraethau gyfuno gydag awch am sbardun economaidd i gryfhau'r achos dros fuddsoddi o'r fath. Er enghraifft, dywedodd y Sefydliad Cydweithredu a Datablygu Economaidd (OECD) ym mis Chwefror 2016:

Gall llywodraethau mewn sawl gwlad ar hyn o bryd fenthycu am gyfnodau maith ar gyfraddau llog isel iawn, sydd mewn gwirionedd yn cynyddu gofod cyllidol. [...] Byddai ymrwymiad i godi buddsoddiad cyhoeddus ar y cyd yn cynyddu galw ac yn aros ar yr un pryd ar lwybr ariannol cynaliadwy. Mae gan wario ar fuddsoddi luosydd uchel [y berthynas rhwng ymyriad ariannol a thwf economaidd], tra byddai prosiectau seilwaith o safon yn helpu i gynnal twf yn y dyfodol, gan wneud iawn am y diffyg mewn buddsoddi yn dilyn y toriadau ar draws gwledydd datblygedig dros y blynyddoedd diwethaf.<sup>6</sup>

Yn gyffredinol, mae seilwaith modern ac effeithiol yn hanfodol i lwyddiant economaidd a chymdeithasol. Gall dim digon o seilwaith wedi ei dargedu yn gywir beri economi i gael trafferth codi cynhyrchedd a chystadlu yn effeithiol yn y marchnadoedd rhyngwladol. Dros amser, gall tanberfformiad o'r fath arwain at lai o dwf mewn cynnyrch economaidd, cyflogau a safonau byw. Gall lefelau is o dwf hefyd gael effaith negyddol ar y sylfaen drethi a swm cysylltiedig yr adnoddau trethi fyddai felly ar gael i lywodraethau.

### **3 Seilwaith a Chymru**

Mae buddsoddi mewn seilwaith yn y DG yn aml wedi gor-ganoli yn Llundain a de-ddwyrain Lloegr; ymhlith enghreifftiau cyfredol mae Crossrail a Crossrail 2 arfaethedig. Er bod prosiectau wedi eu gwneud dan nawdd Rhaglen Buddsoddi Seilwaith Cymru, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru (LIC) yn 2012, gellid gwneud mwy i gyfwyno'r seilwaith fyddai'n helpu i wireddu'r potensial economaidd a chymdeithasol sy'n bodoli ledled Cymru.

Fodd bynnag, rhwystrwyd cyflwyno buddsoddiad o'r fath dros y blynyddoedd diwethaf gan y canlynol:

- Agenda llymder Llywodraeth y DG sydd yn effeithio'n sylweddol ar lefel y buddsoddiad cyfalaf sydd ar gael i LIC, ac o'r herwydd, swm cyffredinol yr arian sydd ar gael i seilwaith. Fel arwydd o amgylchiadau cyllidebol cyffredinol, sylwodd LIC ym mis Rhagfyr 2015 'y bydd ein cyllideb gyfalaf o hyd bron i draean yn is mewn termau real erbyn 2020-21 nac y bu yn 2009-10.'<sup>7</sup>

---

<sup>6</sup> OECD (2016) *Interim Economic Outlook, February 2016*, <https://www.oecd.org/eco/outlook/OECD-Interim-Economic-Outlook-February-2016.pdf>, t. 7.

<sup>7</sup> LIC (2015) *Cyllideb Ddrafft 2016–2017, Cymru Decach, Well – Buddsoddi at y Dyfodol, Rhagfyr 2015*. <http://gov.wales/docs/caecd/publications/151208-budget-narrative-eng.pdf>, t. 2.

- Diffyg buddsoddi cymharol trwy'r Fenter Gyllido Breifat (PFI), a ddatblygwyd gan Lywodraethau blaenorol y DG fel prif gyfrwng buddsoddi mewn seilwaith. Er y gall defnydd cyfyngedig o PFI fod wedi gwarchod LIC rhag y costau uchel ac estynedig oedd yn aml yn gysylltiedig â phrosiectau o'r fath, fe wnaeth gyfrannu hefyd at lefelau isel o fuddsoddi mewn seilwaith.
- Cyfyngiadau trefniadol ar LIC. Nid yw wedi gallu benthyca i gefnogi datblygiadau seilwaith ar raddfa fawr. Tra bydd gan LIC bwerau o'r fath o 2018 ymlaen, cyfyngir cyfanswm eu benthyca cyfalaf i £500 miliwn. Nid yw hyn yn ddigon i dalu am raglen fawr o seilwaith. Hefyd, ni all ddewis codi trethi yn annibynnol i gefnogi mwy o fuddsoddi, Yn olaf, gall unrhyw arbedion a wneir gan LIC i gefnogi datblygu seilwaith gael eu gweld dan rai amgylchiadau gan Drysorlys EM fel dyraniadau nas gwariwyd, a'u hawlio'n ôl.

Mae'r angen am barhau i fuddsoddi mewn seilwaith yng Nghymru yn aml yn nodweddu'r ddadl gyhoeddus, fel yr adlewyrchir mewn datgabiadau a wnaed gan Lywodraethau Cymru a'r DG. Er enghraifft, dywedodd cyn-Weinidog Cyllid a Busnes Llywodraeth LIC, Jane Hutt AC, ym mis Chwefror 2016 fod:

Buddsoddi mewn seilwaith yn elfen allweddol o'n hagwedd at gynnal twf economaidd cyson ac y mae'n ganolog i'n hymateb i ddarparu sbardun economaidd dros y blynyddoedd diwethaf.<sup>8</sup>

Dywedodd cyn-Ysgrifennydd Gwladol Cymru Llywodraeth y DG, Stephen Crabb AS, ym Mehefin 2014 mai:

Buddsoddi mewn seilwaith yw'r allwedd i sicrhau twf economaidd cryfach a mwy cynaliadwy yng Nghymru. Er mwyn i fusnesau fuddsoddi a thyfu, mae arnynt angen yr hyder y gallant gyrchu seilwaith fydd yn cefnogi'r twf hwnnw– trafniadaeth, ynni a thelegyfathrebu. Rhaid i'r seilwaith hwn fod yn ddiogel a chadarn, wedi ei leoli yn y lle iawn ac yn hygyrch ar yr amser iawn.<sup>9</sup>

Nid yw lefel y buddsoddiad mewn seilwaith sydd ei angen yng Nghymru eto wedi ei fesur yn llawn. Mae rhestr Rhaglen Buddsoddi Seilwaith LIC o brosiectau sydd ar y gweill yn rhestru 365 o gynlluniau economaidd a chymdeithasol sydd yn werth gyda'i gilydd tua £40 biliwn,<sup>10</sup> er bod natur a maint

---

<sup>8</sup> LIC (2016) *Cynllun Buddsoddi Seilwaith Cymru – Cyfoesiad am Brosiectau ar y Gweill – Chwefror 2016*. <http://gov.wales/docs/caecd/publications/160205-pipeline-en-v1.pdf>, t. 2

<sup>9</sup> Swyddfa Cymru (2014) *Adeiladu Cymru fwy ffyniannus, seilwaith i economi fwy modern*, Ebrill 2014. [https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/325003/INFRASTRUCTURE\\_REPORT\\_FINAL.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/325003/INFRASTRUCTURE_REPORT_FINAL.pdf), t.1.

<sup>10</sup> LIC (2016) *Cynllun Buddsoddi seilwaith Cymru – Cyfoesiad o Brosiectau ar y Gweill – Chwefror 2016*, t. 2.

ymwneud y sector cyhoeddus yn amrywio'n fawr. Yn ogystal â hyn, mae Llywodraeth y DG yn flynyddol yn nodi bod buddsoddiad cyhoeddus neu breifat arfaethedig mewn prosiectau seilwaith economaidd yn fwy na £50 miliwn. Tra bod hyn yn cynnwys prosiectau sydd yn y cyfnod cynnig neu gynllunio cynnar ac nas bwriadwyd i restru holl ofynion seilwaith economaidd, y mae iddo nod o ddarparu 'trosolwg strategol a mwy credadwy o lefel y buddsoddiad seilwaith cyhoeddus a phreifat a gynlluniwyd dros weddill y ddegawd hon a thu hwnt'.<sup>11</sup> Yr oedd ei asesiad yn 2016 yn nodi 17 o brosiectau mawr gyda ffocws ar Gymru (heb gynnwys prosiectau yn y DG gyfan), gyda chostau posib o ryw £19 biliwn.<sup>12</sup>

Fodd bynnag, gall amgylchiadau presennol hwyluso mwy o ganolbwytio ar seilwaith, megis:

- Gall ansicrwydd economaidd yn dilyn canlyniad y refferendwm ar aelodaeth y DG o'r Undeb Ewropeaidd arwain at newidiadau yn safbwynt ariannol Llywodraeth y DG. Gwthiwyd ymrwymiad y llywodraeth flaenorol i ddileu diffyg cyllidebol y DG erbyn 2020 o'r neilltu, gyda Changhellor y Trysorlys yn dweud ym mis Gorffennaf 2016 y gall polisi ariannol gael ei 'ail-osod'.<sup>13</sup>
- Mae lefelau llog cysylltiedig â benthycu gan lywodraethau yn hanesyddol isel, sy'n golygu fod benthycu ar hyn o bryd yn costio llai. Er enghraifft, yr oedd elw ar Fondiau 10 mlynedd Llywodraeth y DG (dangosydd safonol o gyfraddau llog tymor-hir) yn llai nac 1 y cant ym mis Gorffennaf 2016. Dyma oedd y lefel isaf ers cychwyn data llwyr gymharol ym 1984 (Gweler Graff 1).

#### **Graff 1: Costau benthycu Llywodraeth y DG, 1984 i 2016 (a)**

---

<sup>11</sup> Llywodraeth y DG (2016) *National Infrastructure Pipeline 2016*,

<https://www.gov.uk/government/publications/national-infrastructure-pipeline-2016>.


<sup>12</sup> Tŷ'r Cyffredin (2016) *Briefing Paper, Infrastructure Policy*.

<http://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/SN06594/SN06594.pdf>, t. 15.

<sup>13</sup> Newyddion y BBC (2016) *Chancellor may 'reset' economic policy in Autumn Statement*,

<http://www.bbc.co.uk/news/business-36864099>





[Elw blynyddol cyfartalog o Warannau Llywodraeth Prydeinig, 10 Mlynedd Enwol fesul elw]

Noder (a): Data yn ymwneud a Rhagfyr pob blwyddyn, ac eithrio am 2016 (Gorffennaf).

Ffynhonnell: Banc Lloegr, Cyfres IUAAMNPY (1984 to 2015); Bloomberg (Gorffennaf 2016).

- Mae strwythurau trafodion cysylltiedig â'r agwedd Heb Ddosbarthu Elw (HDdE)<sup>14</sup> yn cynnig dewis deniadol arall yn lle PFI a dulliau caffael traddodiadol. Er bod angen mwy o eglurder ynghylch pa mor gymwys ydyw i brosiectau seilwaith (gweler adran 4.2), gallai ei ddefnyddio hwyluso rhaglen fawr o fuddsoddi mewn seilwaith.

#### 4 Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru

Beth fedrai'r CSCC wneud? I grynhoi, dylai:

- Nodi, costio a blaenoriaethu rhaglen o brosiectau a allai ar y cyd gyflwyno strategaeth seilwaith cyffredinol LIC, yn amodol ar derfynau cyllidol cyffredinol. Byddai prosiectau yn cynnwys ysgolion ac ysbytai a gallent ymestyn at ffyrdd a thai.<sup>15</sup> Dylid ystyried mathau eraill o seilwaith megis dulliau eraill o deithio, ynni, dŵr, gwastraff a thelegyfathrebu ar gyfer eu cynnwys yng nghylch gorchwyl y CSCC, yn amodol ar asesiadau dichonoldeb yn ogystal â blaenoriaethu o fewn terfynau ariannol cyffredinol. Er y byddai gan y CSCC ran amlwg yng nghyflwyno strategaeth seilwaith LIC, ni fyddai'n gyfrifol am holl raglen fuddsoddi cyfalaf LIC.

<sup>14</sup> Mae 'Heb Ddosbarthu Elw' yn cyfeirio at drafodion o fath 'elw wedi'i gapio' fel sydd wedi eu datblygu gan Lywodraeth yr Alban. Mae 'Nid am Elw Dosbarthiadwy' yn cyfeirio at endid gyda'r nodweddion a gyfleir gan yr enw hwnnw.

<sup>15</sup> PC (2016) *Sut y byddai Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru yn gweithio*.

<http://www.plaid2016.wales/cscclnicw>

- Trefnu'r cyllid ar gyfer rhaglen adeiladu ar raddfa fawr o seilwaith economaidd a chymdeithasol. Gallai'r benthyca cysylltiedig â'r rhaglen hon fod tua £7.5 biliwn, tra gellid cael mwy o gefnogaeth o gyllidebau cyfalaf LIC er mae'n debyg y byddai'r cyllid hwn y tu allan i strwythurau o fath HDdE.
- Caffael prosiectau o fewn i'w rhaglen datblygu seilwaith trwy redeg proses dendro, cyn monitro cyflwyno'r prosiectau.
- Cyngori LIC ar flaenoriaethau seilwaith y llywodraeth, yn ogystal ag ar faterion yn codi o ddatblygu seilweithiau, megis y rhai yn ymwneud â gofynion sgiliau a chadwyni cyflenwi.

A derbyn fod cyflawni prosiectau seilwaith economaidd a chymdeithasol yn llawn anawsterau posib, mae pum egwyddor craidd yn sylfaen i gynigion PC am y CSCC:

1. **Atebolrwydd:** Byddai'r CSCC yn llwyr atebol i LIC, ac yn destun craffu gan CCC trwy broses ffurfiol y Pwyllgorau. Rhaid diffinio sianeli atebolrwydd yn glir o fewn model llywodraethiant y CSCC.
2. **Annibyniaeth:** Dylai'r CSCC fod yn ddigon annibynnol i alluogi cyflawni ar draws ei bortffolio o brosiectau, ac aros yr un pryd yn llawn atebol i LIC a CCC.
3. **Cyflwyno:** Byddai'r CSCC yn cael ei farnu ar ei allu i gyflawni ei raglen waith o fewn paramedrau ariannol a gweithredol y cytunwyd arnynt. Rhaid iddo gael ei staffio, ei reoli a'i oruchwylio er mwyn gwneud y gorau o'i allu i wneud hynny. Rhaid i'r ddiwylliant sefydliadol fod yn ddigon hyblyg i weithio'n effeithiol gyda chyrrff ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat.
4. **Gonestrwydd:** Byddai'r CSCC yn gyfrifol am ddatblygu asedau cyhoeddus ar raddfa fawr. Bydd yr angen i ddangos gonestrwydd ar draws ei holl weithrediadau yn hollbwysig. Lle bo hynny'n fasnachol ddichonadwy, dylai tryloywder nodweddu ei holl waith.
5. **Gwerth am Arian:** Dylai'r CSCC ganolbwyntio ar fasnachu deallus, gan sicrhau'r lefelau uchaf o werth am arian.

Mae maint a chymhlethdod y CSCC a'i raglen fuddsoddi yn golygu y byddai'n rhaid ei gyflwyno yn raddol, gan ystyried y canlynol yn ofalus: (1) Llywodraethiant ac atebolrwydd; (2) Cyllido; (3) Blaenoriaethu a chyflawni.

#### 4.1 *Llywodraethiant ac atebolrwydd*

Mewn caffael seilwaith, mae llywodraethiant yn bwysig am mai ei swyddogaeth yw 'sichrau fod sefydliad neu bartneriaeth yn cyflawni ei ddiben cyffredinol, yn gwneud yr hyn a fwriada ar gyfer dinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth, ac yn gweithredu yn effeithiol, effeithlon a moesegol.<sup>16</sup>

Mae modd osgoi neu leihau llawer o'r problemau gweithredol ac ariannol a effeithiodd ar ddatblygu seilwaith y sector cyhoeddus trwy strwythurau llywodraethiant sy'n cadw cydbwysedd rhwng awydd naturiol noddwyr y prosiect i gadw rheolaeth, ac angen y tîm cyflwyno i gael digon o ryddid i ganiatau iddynt reoli risg a chwrdd ag amcanion y prosiect.

Bwriada PC ymdrin â'r gwrthdaro posib hwn trwy strwythuro'r CSCC fel corfforaeth gyhoeddus, ar sail nid-am-elw-dosbarthiadwy. Byddai'r elw a gedwid yn ôl yn cael ei ddefnyddio i wella mantolen y gorfforaeth ac i fuddsoddi mewn prosiectau seilwaith y sector cyhoeddus yng Nghymru. LIC fyddai biau'r CSCC, ond byddai'n gweithredu o hyd braich. Dylai Deddf y Cynulliad osod allan ei strwythur, dyletswyddau a phwerau (ariannol, gweithredol ac eraill).

Byddai'r CSCC yn llawn atebol i LIC. Dylid dogfennu'r berthynas rhwng y ddau gorff yn ffurfiol, gyda manylion yn cynnwys:

- Nod, amcanion a thargedau cyffredinol y CSCC i gefnogi nod a blaenoriaethau strategol LIC, yn ogystal â chanllawiau ar y modd y byddai'r CSCC yn arfer ei swyddogaethau, dyletswyddau a phwerau. Er y byddai'r rhan fwyaf o weithgaredd y CSCC yn canoli ar flaenoriaethu a chyflwyno prosiectau seilwaith, byddai hefyd yn cynghori LIC ar faterion megis cynllunio sgiliau'r gweithlu yn ogystal ag effeithiau ar y gadwyn gyflenwi a galluoedd.
- Prosesau cynllunio corfforaethol y CSCC, a sut y byddai LIC yn ymwneud â'u gosod a'u monitro. Y nod fyddai sichrau digon o oruchwyliaeth ond sichrau ar yr un pryd y byddai'r CSCC yn weithredol annibynnol. Gallai prosesau o'r fath gynnwys:
  - a. Llythyrau cylch gorchwyl blynyddol yn gosod allan ddisgwyliadau bras LIC.
  - b. Cynllun corfforaethol aml-flwyddyn.
  - c. Cynlluniau busnes blynyddol yn gosod allan sut y byddai'r bwrdd yn asio weithgareddau gyda'r cyfeiriad strategol wedi ei osod allan yn y cynllun corfforaethol.
  - d. Math, maint ac amllder data monitro fyddai'n cael ei ddarparu i LIC fel y gall y comisiwn gael ei ddal i gyfrif am ei berfformiad.

---

<sup>16</sup> Y Comisiwn Annibynno ar Lywodraethiant Da mewn Gwasanaethau (2004) *The Good Governance Standard for Public Services*. <http://www.opm.co.uk/wp-content/uploads/2014/01/Good-Governance-Standard-for-Public-Services.pdf>, t. 7.

Rhaid i CCC allu dal y CSCC i gyfrif, yn enwedig trwy'r system bwyllgorau. O ystyried cwmphas a phroffil tebygol gweithgaredd y CSCC, byddai'n rhaid i graffu o'r fath fod yn broses fanwl a chyson. Yn olaf, byddai'r CSCC yn destun Deddf Rhyddid Gwybodaeth, gwaith Swyddfa Archwilio Cymru yn ogystal â deddfwriaeth cwmnïau.

Byddai'r comisiwn yn cael ei reoli gan fwrdd cyfarwyddwyr, atebol i LIC am bob agwedd o berfformiad y CSCC. Byddai'r rhan fwyaf o'r cyfarwyddwyr yn anweithredol, wedi eu penodi gan LIC am dymor o bum mlynedd o leiaf. Dylent adlewyrchu natur gweithgaredd y CSCC, sef unigolion gyda phrofiad ar lefel uchel o gyllid masnachol, caffael, adeiladu, rheoli prosiectau, gweinyddu cyhoeddus a meysydd cyfreithiol cysylltiedig. Byddai cyfarwyddwyr gweithredol yn dod o rengoedd uwch-reolwyr CSCC.

Byddai'r bwrdd yn penodi Prif Weithredwr, yn gyfrifol am weithrediadau beunyddiol CSCC. Bydd ar y CSCC angen ei staff ei hun. O gofio natur a maint gweithgaredd CSCC, byddai angen i'r rhain feddu ar broffil sgiliau o fath a lefel digonol i sicrhau cyflawni llwyddiannus. Byddai gallu gan bob un i gyfuno setiau sgiliau masnachol a sector cyhoeddus ar lefel uchel yn arbennig o bwysig; felly hefyd swyddogaeth cydymffurfio mewnol cadarn gydag adnoddau da. Tra byddai graddfa gweithrediadau CSCC angen staff digonol i alluogi cyflawni, dylai nifer y gweithwyr aros ar lefel resymol er mwyn sicrhau creu a chynnal corff tynn, hawdd ei reoli.

## 4.2 Cyllido

### *Model*

Dylai'r CSCC anelu'n gyffreidnol at ddenfyddio strwythur trafodion cysylltiedig â'r agwedd Heb Ddosbarthu Elw (HDdE). Mae'r rhain yn rhoi model cyllido i brosiectau partneriaeth cyhoeddus-preifat sydd yn codi arian o ffynonellau'r sector preifat ond gan osgoi ar yr un pryd y problemau sy'n gysylltiedig â PFI, megis elw sector preifat uwch na'r disgwyl a pheth colli rheolaeth dros asedau'r sector cyhoeddus. Mae strwythurau o'r fath hefyd yn cynhyrchu dosbarthiad 'oddi ar y fantolen gyhoeddus' o'r Swyddfa Ystadegau Genedlaethol (SYG) sydd a nifer o fanteision ariannol.

Mae prosiectau o fath HDdE wedi eu strwythuro fel ag i wneud y canlynol: sicrhau nad yw cyfraddau elw a geir gan bartneriaid y sector preifat yn uwch na lefel dderbyniol; sicrhau lefelau uwch o reolaeth y sector cyhoeddus a sicrhau y gall unrhyw elw dros ben gael ei gadw yn y sector cyhoeddus. Mae prosiectau yn gyffredinol wedi eu ffurfio o gwmpas Cyfrwng Pwrpas Arbennig (CPA) cyfyngedig gan gyfranddaliadau heb fod yn dwyn dididend. Ar wahân i 'gyfran aur' a ddelir gan y sector cyhoeddus, delir pob cyfranddaliad gan fuddsoddwyr y sector preifat. Mae hyn yn sicrhau fod y CPA wedi ei reoli gan y partiön y mae risg i'w benthyriad, gyda'r 'gyfran aur' yn rhoi rheolaeth y sector cyhoeddus dros strwythurau corfforaethol, llywodraethiant a rheoli.<sup>17</sup>

---

<sup>17</sup> Blake Morgan (2015) *Non-Profit Distributing Model – The Future for Welsh Infrastructure Projects?* [https://www.blakemorgan.co.uk/attachments/89974/NPD\\_capability\\_document.pdf](https://www.blakemorgan.co.uk/attachments/89974/NPD_capability_document.pdf), tt. 1-2.

Cyn hyn, ymrwymodd LIC i rai prosiectau seilwaith dan strwythur o fath HDdE, sef Rhaglen Ysgolion yr 21<sup>fed</sup> Ganrif, deuoli rhannau o'r A465 ac ail-ddatblygu canolfan ganser Felindre. Fodd bynnag, ataliwyd cynydd strwythurau o'r fath ledled y DG ym mis Gorffennaf 2015 gan benderfyniad y SYG i ail-ddosbarthu prosiect Llywodraeth yr Alban (LIA) fel 'ar y fantolen' (ar sail rheolau Eurostat). Fodd bynnag, cynigiodd LIA fodel perchenogaeth amgen i rai CPA.<sup>18</sup> Ym mis Tachwedd 2015, nododd LIA fod y SYG wedi cadarnhau y byddai'r model arfaethedig yn cael ei ddosbarthu fel un sector preifat a fyddai felly yn gymwys i fwrw ymlaen fel math HDdE.<sup>19</sup>

Er bod angen eglurder am y graddau y gelid defnyddio agwedd o'r fath ar draws yr holl brosiectau, a bod angen eglurder hefyd am rôl rheoliadau Eurostat yn y DG yn y dyfodol, dengys penderfyniad y SYG y gall strwythur o fath HDdE fod yn ddewis hyfyw ar gyfer seilwaith. Dylai LIC, trwy ymgynghori â'r SYG, LIA a Llywodraeth y DG, geisio datblygu strwythur o fath HDdE ar gyfer CSCC. Fodd bynnag, dylai'r CSCC fod yn hyblyg wrth ystyried strwythurau trafodion a allai hwyluso cyflwyno prosiectau, er bod yn rhaid i bob strwythur o'r fath fod yn holol gydnaws ag ethos ac agwedd y comisiwn fel y'u gosodwyd gan LIC. Er enghraifft, gall rhai mathau fod yn addas i brosiectau lle mae ffrwd incwm yn nodwedd (megis rhai prosiectau tai, band eang a chynhyrchu ynni), tra gallai rhai heb ffrwd incwm ond sydd yn rhoi mantais trwy wneud yr economi yn fwy cynhyrchiol (megis rhai prosiectau trafniadaeth) elwa o agwedd arall. Yn olaf, dylai CSCC hefyd edrych i mewn i ddulliau lle gellid defnyddio rhannau o gyllidebau buddsoddi cyfalaf presennol LIC a'u hail-gyfeirio gan CSCC.

#### *Ffynonellau cyllid ac amcangyfrif o'r costau cyffredinol*

Gall prosiectau seilwaith gyda chefnogaeth gyhoeddus gynnig proffil risg deniadol o'u cymharu a mathau eraill o fuddsoddiad. Er nad oes modd asesu'n gywir yr awch am ddyled y gellid ei gynnig gan CSCC ar hyn o bryd, gallai dyled o'r fath fod yn ddeniadol i ffynonellau megis: marchnadoedd cyfalaf; Cynllun Gwarantg Infrastructure UK; y Banc Buddsoddi Gwyrdd; y Llwyfan Seilwaith Pensiynau a chronfeydd pensiwn. O ran maint, un ffynhonnell gyllido mewn marchnadoedd cyfalaf fyddai cronfeydd seilwaith heb eu rhestru sydd â'u canolfan yn y DG. Mae ymchwilyr masnachol wedi amcangyfrif mai'r farchnad cronfeydd seilwaith heb eu rhestru sydd â'u canolfan yn y DG yw'r fwyaf

---

<sup>18</sup> Blake Morgan (2016) *Non-profit distributing - has Scotland found a model that works for infrastructure projects across the whole of the UK?* <https://www.blakemorgan.co.uk/news-events/news/non-profit-distributing-has-scotland/> Y model arfaethedig (yn cynnwys CPA 'hwb') yw: 60 y cant yn nwylo'r sector preifat; 20 y cant gan elusen; 10 y cant gan Scottish Futures (cangen weithredol LIA), a; 10 y cant gan yr awdurdod caffael. Mae CPA hwb yn cynnwys prosiectau Dylunio, Adeiladu, Cyllid a Chynnal llai, yn wahanol i brosiectau seilwaith mawr iawn.

<sup>19</sup> Llywodraeth yr Alban (2015). *Update on Scotland's Public Finances, 26 Tachwedd 2015.* <http://news.scotland.gov.uk/Speeches-Briefings/Update-on-Scotland-s-Public-Finances-1fb2.aspx>

yn Ewrop, gyda chronfeydd seilwaith heb eu rhestru sydd â'u canolfan yn y DG wedi codi rhyw £50.8 biliwn ers 2006 i'w fuddsoddi yn y DG, Ewrop a ledled y byd.<sup>20</sup>

Fel arwydd o faint y farchnad y byddai'r CSCC yn gweithredu ynddi, cwblhawyd 122 trafodiad yn ymwneud â thrafodion seilwaith y DG yn 2015. Gyda'i gilydd, roedd iddynt werth o ryw £36.9 biliwn, gyda chyllid yn dod o fuddsoddwyr yn y DG a thramor. Dengys data am gwmpas sectoraidd y trafodion a wnaed ers 2013 fod ynni adnewyddol wedi cyfrif am ryw 47 y cant o werth y trafodion gyda'i gilydd, yna asedau cymdeithasol gan gynnwys adeiladau addysgol ac ysbytai, sef 30 y cant. Yr oedd sectorau eraill yn cynnwys trafndiaeth, cyfleustodau ac ynni.<sup>21</sup>

Mae buddsoddiad cyfalaf LIC fel y'u diffinnir gan Lywodraeth y DG yn rhyw £1.5 biliwn am 2016-2017, yn codi i ryw £1.7 biliwn (enwol) erbyn 2020-2021.<sup>22</sup> Cynnig PC yw y gallai'r CSCC godi ryw £7.5 biliwn dros gyfnod o ddeng mlynedd (gweler Graff 2) i dalu am eu rhaglen ddatblygu. Byddai hyn yn ychwanegol at gyllideb buddsoddiad cyfalaf LIC, y gellid defnyddio peth ohono i gefnogi rhaglen y CSCC o fuddsoddi mewn seilwaith er y byddai strwythrau heb fod yn rhai HDdE yn angenrheidiol, yn fwy na thebyg.

**Graff 2: Benthycia cronrus (amcangyfrif), 2017 i 2026.**

£ biliwn


---

<sup>20</sup> Preqin (2016) *The UK Infrastructure Market*, <https://www.preqin.com/docs/reports/Preqin-UK-Infrastructure-Market-May-2016.pdf>

<sup>21</sup> Preqin (2016) *The UK Infrastructure Market*.

<sup>22</sup> Llywodraeth y DG (2016) *Budget HC 905 [Y Llyfr Coch]* [https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/508193/HMT\\_Budget\\_2016\\_Web\\_Accessible.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/508193/HMT_Budget_2016_Web_Accessible.pdf), t. 92.


[£ biliwn Benthycia cronus]



Ffynhonnell: Costiadau oedd yn sail i fanifesto Plaid Cymru yn Etholiad Cyffredinol Cymru 2016.

Byddai'r CSCC yn benthycia dros 25 mlynedd. Ar y sail hwn, mae amcangyfrif cost gwasanaethu'r ddyled (gan gynnwys talu'r cyfalaf a'r llog) yn codi i'r brig yn 2026 (gweler Graff 3), pryd y gallai fod yn bedwar y cant o gyllideb LIC. Pan fydd y rhaglen ddeng-mlynedd o godi arian yn gyflawn, byddai'r costau gwasanaethu a amcangyfrifwyd yn disgyn fel canran o Gyllideb Cymru a amcangyfrifwyd.

**Gra 3: Costau gwasanaethu dyled (amcangyfrif), 2017 i 2051 (a-c).**



[Canran cyllideb Llywodraeth Cymru

## *Cost gwasanaethu dyled]*

Nodiadau:

- (a) Gosodir Cyllideb Cymru i ddechrau mewn termau enwol, ond rhagdybiwyd twf enwol o 2.5 y cant wedi 2020.
- (b) Cymerir y bydd cyfradd y flwydd-dâl yn codi o 7.3 y cant yn 2016 i 9.7 y cant erbyn 2020. Yn wastad wedi hynny.
- (c) Data yn rhagdybio na fydd mwy o fenthycia ar ôl y cyfnod cychwynnol o ddeng mlynedd, er y gallai LIC yn y dyfodol benderfynu'n wahanol.

*Ffynhonnell: Costiadau oedd yn sail i faniffesto Plaid Cymru yn Etholiad Cyffredinol Cymru 2016.*

### **4.3 Blaenoriaethu a chyflwyno**

Byddai'n rhaid i LIC benderfynu ar flaenoriaethau buddsoddi yn dilyn cyngor gan CSCC ynglŷn â sut orau i ddiffinio, mesur a chwrdd ag anghenion seilwaith Cymru yn y tymor canol i dymor hir. Unwaith y penderfynir ar flaenoriaethau, y CSCC fyddai'n gyfrifol am nodi, blaenoriaethu, cynllunio, cyllido a chyflwyno prosiectau a allai gyda'i gilydd gyflawni amcanion strategol LIC.

Os yw'r tasgau hyn am gael eu cyflawni yn llwyddiannus, byddai CSCC yn wynebu nifer o heriau, gan gynnwys:

- Yr angen i flaenoriaethu prosiectau a gynigir i'w chyflwyno dan flaenoriaethau buddsoddi LIC. Byddai'n rhaid cytuno ar fecanwaith ar gyfer gwneud hyn gyda LIC a dylai weithredu yn dryloyw. Gallai'r proses hon gynnwys asesiadau aml-gyfnod yn erbyn meini prawf megis y gallu i gyflawni, dichonoldeb ariannol, cyfatebu gyda blaenoriaethau LIC, lefel effaith economaidd a/neu gymdeithasol ac oblygiadau amgylcheddol.
- Byddai'n rhaid i'r CSCC ddatblygu'r gallu mewnol i drefnu cyllido a chaffael<sup>23</sup> rhaglen ddatblygu seilwaith ar raddfa fawr ar draws prosiectau o amrywiol faint a chymhlethdod. O ganlyniad, bydd angen iddo ddatblygu prosesau rheoli rhaglenni/ prosiectau cadarn ac ymatebol.

Wrth wneud hynny, byddai'n rhaid ystyried unrhyw wersi a ddysgwyd o agweddau gafodd eu trio a'u profi mewn manau eraill, megis y rhai yn Crossrail a phrosiectau seilwaith eraill. Er enghraifft, dyma a nododd adroddiad gan Awdurdod Seilwaith a Phrosiectau Llywodraeth y DG ar gyflawni prosiectau seilwaith cyfalaf mawr:

*Profwyd angen am gryn ymwneud gan y sector cyhoeddus mewn rheoli rhaglen [...] er mwyn creu'r amodau y bydd y sector preifat yn cyflawni danynt yn effeithiol.*

---

<sup>23</sup> Dylai polisiau caffael y CSCC, lle bo modd, gael eu datblygu gyda'r nod o gadw cyfran uchel o effaith economaidd cysylltiedig â'r project yng Nghymru ei hun yn ogystal â chefnogi gweithgaredd datblygu economaidd LIC.



*Mae'r rhaglenni hyn wedi eu cyflwyno yng nghyd-destun amgylchedd cadarn o reoli prosiectau wedi'i oruchwylio gan y sector cyhoeddus.*

*Mae galluogi amgylchedd masnachol a gweithredol mwy soffistigedig fel arfer wedi mynnu cryn dipyn mwy o allu gan y sector cyhoeddus.<sup>24</sup>*

- Mae diffyg cymharol o brosiectau seilwaith sy'n barod i'w gweithredu yn golygu y byddai'r cyflwyno yn broses raddol wrth i brosiectau newydd gael eu dwyn ymlaen.

Sut y gallai'r CSCC weithio yn ymarferol? Tra bod gwahanol gyd-destunau rheoleiddiol a thechnegol yn golygu y byddai'n rhaid teilwrio agweddau cyflwyno yn aml, o bosib yn ôl y math o brosiect, ar draws portfolio'r comisiwn, gellid cyflwyno ysgol fel a ganlyn:

1. Mae LIC yn blaenoriaethu prosiectau codi ysgolion o fath arbennig ac yn rhoi i'r CSCC y dasg o'u cyflwyno.
2. Mae Awdurdod Addysg Lleol (AALI) yn gofyn i'r CSCC godi ysgol ar eu rhan.
3. Mae'r CSCC yn asesu prosiect yr ysgol ac yn penderfynu bwrw ymlaen, yn fwyaf tebyg fel rhan o raglen fwy.
4. Mae'r CSCC yn gweithio gyda'r AALI i ddatblygu cynigion, tra bod y comisiwn yn creu strwythurau prosiect ac yn codi arian.
5. Mae'r CSCC yn tendro adeiladu i'r sector preifat. Mae'r comisiwn yn goruchwylio pob agwedd o gyflwyno'r contract, cyn cymryd perchenogaeth o'r ysgol wedi ei chwblhau.
6. Mae'r AALI yn dod i brydles tymor hir gyda'r CSCC i feddiannu'r ysgol.
7. Byddai taliadau prydles a wnaed gan yr AALI yn gwasanaethu'r ddyled sy'n gysylltiedig â'r ysgol a godwyd gan y CSCC. Y CSCC fyddai'n cadw perchenogaeth, ond yr AALI fyddai'n gyfrifol am reoli'r eiddo o ddydd i ddydd. Unwaith i'r ddyled gael ei had-dalu, dylai perchenogaeth yr ysgol drosglwyddo i'r AALI.  
Mae'r agwedd hon yn debyg mewn rhai ffyrdd i brydlesu eiddo masnachol lle mae'r tenant yn gyfrifol am gynnal ac adfer yr eiddo cyn i'r eiddo ddychwelyd i'r perchennog, a all wedyn werthu'r eiddo neu ei drosglwyddo i'r tenant sydd wedyn yn dod yn berchennog.

---

<sup>24</sup> Awdurdod Seilwaith a Phrosiectau (2016) *Major Capital Programmes: A discussion document based on insights from recent experience*, tt. 3-4.

[https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/509686/IPA\\_Experience\\_From\\_Major\\_Capital\\_Project.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/509686/IPA_Experience_From_Major_Capital_Project.pdf)

Er na fyddai rheidrydd ar gyrff y sector cyhoeddus i ddefnyddio'r CSCC, byddai'r comisiwn yn ddewis arall yn hytrach na PFI confensiynol a mathau eraill o fodolau caffael cyhoeddus. Yn wahanol i PFI, ni fyddai'r CSCC yn gyffredinol yn ceisio cyfuno contractau adeiladu a chontractau rhedeg/gwasanaeth, gan weithredu yn hyrach fel landlord yr adeilad, neu berchennog yr ased tra'r addelir y ddyled sy'n gysylltiedig â'r prosiect. Byddai rhedeg yr adeiladau/asedau yn gyffredinol yn gyfrifoldeb y partneriaid o'r sector cyhoeddus, a byddai asedau o'r fath fel rheol yn cael eu trosglwyddo i'r partneriaid hyn unwaith y telir y ddyled sy'n gysylltiedig â'u hadeiladu.

Dros amser, dylai rhaglen weithgaredd y CSCC arwain at fwy o safoni rhwng dogfennau contract yn ogystal â gweithdrefnau caffael. Dylai hyn, ynghyd ac economïau graddfa, leihau costau a chynyddu tryloywder a sicrwydd, a'r effaith gyffredinol fyddai ei gwneud yn fwy tebygol y byddai gweinyddu cyhoeddus yn fwy effeithlon. Yn gyffredinol, byddai'r CSCC yn cynnig i gyrff y sector cyhoeddus fynediad at ganolfan arbenigedd gyda chenhadaeth sector cyhoeddus a allai ddefnyddio ei arbenigedd a'i brofiad i gyflwyno prosiectau cyfalaf mewn dull effeithlon, a chynnig ar yr un pryd ddatblygu swm mwy o seilwaith nac ar hyn o bryd.

## **5 Casgliad**

Er na fyddai cyflwyno'r CSCC a'i raglen fuddsoddi heb ei heriau, gallai comisiwn llwyddiannus yn cyflwyno prosiectau seilwaith wedi eu dethol yn ofalus gynnig y manteision canlynol:

- Agwedd tymor-hir, fwy integredig a strategol at bob agwedd o ddatblygu seilwaith.
- Rhoi hwb sylweddol i lefelau'r cyllid cyfalaf fyddai ar gael i'r sector cyhoeddus.
- Cyflwyno swm mawr o seilwaith economaidd a chymdeithasol sy'n hanfodol i lwyddiant economaidd a chymdeithasol y genedl.
- Galluogi mynediad at gyllid y sector preifat ar sail tecach a mwy effeithlon nac sy'n wir am PFI, gan gynnwys cadw peth elw elw i'w fuddsoddi ymhellach yn y.
- Creu canolfan arbenigedd mewn caffael seilwaith, gan greu effeithlonrwydd trwy effeithlonrwydd graddfa a lleihau costau.
- Gwella amodau cymdeithasol ledled Cymru trwy ddarparu mwy o seilwaith cymdeithasol.
- Darparu hwb economaidd, gan greu nifer fawr o swyddi ar hyd a lled Cymru yn y diwydiant adeiladu a'r cadwyni cyflenwi cysylltiedig.

- Cyflwyno lefelau uwch o dwf economaidd ledled Cymru. Dros y tymor hwy, gallai hyn weithredu i gau'r bwch rhwng cynnyrch economaidd per capita Cymru o gymharu â chyfartaledd y DG.

Yn gyffredinol, mae gweithredu CSCC ar y patrwm a osodir allan yn y ddogfen hon yn cynnig cyfle i LIC greu effeithiau economaidd a chymdeithasol parhaol, er lles pobl Cymru yn y tymor hir.